

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk



# CYNHYRCHU EICH **YNNI** EICH HUN



1

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon

Help Wales reduce its Carbon Footprint

## Arweiniad cynllunio ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau

# Mae'r hinsawdd yn newid nawr

Rydym yn gwybod bod dyfeisiadau newydd fel y rhyngrwyd a ffonau symudol wedi gweddnewid ein ffordd o fyw ac y bydd datblygiadau tebyg ym maes ynni adnewyddadwy nawr yn arwain at Gymru carbon isel a chadarn. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau'r dyfodol gorau posibl i Gymru ac rydym wedi gwneud ymrwymiadau uchelgeisiol i daclo achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gynaliadwy yn "Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd".

Mae ein dull gweithredu yn creu'r amodau i Gymru fod yn arweinydd byd ac i fanteisio ar yr holl gyfleoedd a ddaw o fod yn flaengar mewn byd sy'n newid. Er hynny, yn ein barn ni, newid hinsawdd, o beidio â'i ffrwyno, yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r byd. Mae'n bygwth elfennau sylfaenol bywyd i bobl ar draws y byd: cyflenwadau dŵr, iechyd a chynhyrchiant bwyd.

Gallwn wneud rhywbeth ynghylch newid hinsawdd, dim ond inni i gyd weithio gyda'n gilydd. Fel cymdeithas, mae'n rhaid rhyddhau llai o nwyon tŷ gwydr trwy gynhyrchu a defnyddio ynni mewn ffordd wahanol.

Gall penderfyniadau pob un ohonom helpu i leihau allyriadau neu gryfhau Cymru rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gall cynhyrchu ynni adnewyddadwy wneud eich cyflenwad ynni'n fwy diogel, lleihau eich ôl troed carbon a thros amser, leihau'ch biliau ynni. Bydd y daflen hon yn eich helpu i ddewis y ffordd sy'n iawn i chi.

# CYNNWYS


**Cychwyn** 4

Beth yw'r pecyn hwn?
Sut mae defnyddio'r pecyn hwn

**Lleihau eich ôl troed carbon** 5

Beth ddylwn i ei wneud yn gyntaf?

**Cynhyrchu eich ynni adnewyddadwy eich hun** 9

Beth yw ynni adnewyddadwy?
Technolegau ynni adnewyddadwy

**Gosodwyr** 14

**Cynllunio** 14

**Cyllid** 16

**Rhagor o Wybodaeth** 21

# CYCHWYN

## Beth yw'r pecyn hwn?

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn wedi'i lunio ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau sydd am gynhyrchu eu hynni eu hunain drwy gyfrwng ynni adnewyddadwy. Efallai eu bod am fanteisio ar Gynllun Arian yn ôl am Ynni Glân (a elwir hefyd yn Dariff Cyflenwi Trydan) a bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Beth bynnag yw eich rhesymau, bwriad y pecyn yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am ba faterion y dylech chi fod yn eu hystyried wrth osod technoleg ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y rheoliadau cynllunio presennol a'r ffyrdd y gallwch chi osod y dechnoleg heb darfu arnoch chi, eich cymdogion na'r amgylchedd adeiledig a naturiol lleol.

## Sut mae defnyddio'r pecyn hwn

Rhennir y pecyn yn dair rhan ar wahân.

| | |
|---|---|
| **Un** | **Cychwyn** - Yn yr adran hon (y llyfryn hwn) ceir cyflwyniad defnyddiol i newid yn yr hinsawdd a'r ffyrdd y gallwch chi leihau'ch ôl troed carbon drwy ddefnyddio ynni'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy. |
| **Dau** | **Taflenni am y technolegau** - Cyfres o daflenni cryno am bob un o'r technolegau ynni adnewyddadwy sy'n esbonio beth yw'r dechnoleg, prif effeithiau'r dechnoleg a'r ffyrdd y gallwch chi leihau'r effeithiau hyn. |
| **Tri** | **Rheoliadau cynllunio presennol** - Ni fydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai o'r technolegau graddfa fach y byddwch chi'n eu gosod. Yn y daflen hon nodir y gofynion cyfredol ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy graddfa fach. |


# Lleihau Eich Ôl Troed Carbon

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

## Beth ddylwn i ei wneud yn gyntaf?

Os ydych chi, eich cymuned neu eich busnes wedi penderfynu yr hoffech chi gynhyrchu eich ynni eich hun drwy osod technoleg ynni adnewyddadwy, dylech chi sicrhau yn gyntaf bod y cartrefi a'r adeiladau rydych chi'n dymuno darparu ynni ar eu cyfer yn **defnyddio ynni mewn ffordd mor effeithlon** ag sy'n bosib. Mae hyn yn golygu edrych ar y ffyrdd y gallwch chi leihau faint o ynni y mae ei angen ar eich cartref neu adeilad.

Mae cymryd camau i ddefnyddio ynni'n effeithlon megis gwella'r inswleiddio neu roi boeler hynod effeithlon yn lle'r hen foeler yn gallu helpu i ddefnyddio ynni yn y ffordd orau bosib, gan gynnwys unrhyw ynni adnewyddadwy y byddwch chi'n ei gynhyrchu, a sicrhau bod gan eich adeilad ôl troed carbon is.



## Cartrefi

Mae galw mawr am ynni yn ein cartrefi a gallwch gymryd sawl cam yn y cartref er mwyn lleihau'r ôl troed carbon. Mae'r rhain yn cynnwys inswleiddio'r toeon a'r waliau, cyfnewid boeleri, gosod cyfarpar atal drafftiau a defnyddio bylbiau golau ac offer arall sy'n fwy effeithlon.

Y cam cyntaf i ddeiliaid tai yw darllen **Gwella eich cartref – Canllaw Newid Hinsawdd** sy'n ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer y rheini sy'n ystyried gwneud newidiadau i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy sicrhau bod eu cartrefi'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a lleihau eu hôl troed carbon yn gyffredinol.

Gwella eich Cartref: Canllaw Newid Hinsawdd
www.cymru.gov.uk/cynllunio

**Helpu Cymru i Leihau ei Hôl Troed Carbon**
www.cymruoltroedcarbon.gov.uk

**Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**
Wrth leihau'r allyriadau $CO_2$ o'ch cartref, gallwch hefyd leihau'ch biliau ynni.
Fe gewch Archwiliad Ynni Cartref am ddim drwy ymweld â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:
www.est.org.uk
Ffôn 0800 512012



## Cymunedau

Gallwn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar lefel cymuned hefyd drwy gydweithio i ddod o hyd i ffyrdd o leihau ein hôl troed carbon. Gall gweithredu ar raddfa gymunedol sicrhau bod cynhyrchu ynni ar lefel leol neu arbed ynni yn fwy cost effeithiol.

Mae cefnogi cymunedau i gymryd camau i leihau eu hôl troed carbon a bod yn fwy hunangynhaliol o ran ynni ac adnoddau eraill yn rhan allweddol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae adeiladau cymunedol megis neuaddau pentref, ysgolion a chanolfannau hamdden yn cynnig cyfle gwych i arbed ynni. Yn y lle cyntaf dylai hyn gynnwys inswleiddio, newid hen foeleri aneffeithlon a gosod offer atal drafftiau ar ffenestri.

Mae ein **Pecyn Gweithredu yn y Gymuned** yn nodi pa gamau y gall cymunedau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys sut gallant ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Un enghraifft o hyn yw cynnal archwiliad ynni mewn cartrefi ac adeiladau eraill er mwyn gweld beth yw'r potensial ar gyfer mesurau arbed ynni a chynhyrchu eu hynni eu hunain.

**Helpu Cymru i Leihau ei Hôl Troed Carbon**
www.cymruoltroedcarbon.gov.uk

**Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**
Mae rhaglen Cymunedau Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer cymunedau ar sut mae cynnal archwiliad ynni.
www.est.org.uk
Ffôn 0800 512 012



## Busnesau

Mae galw mawr am ynni mewn adeiladau busnes a gallwch gymryd sawl cam er mwyn lleihau'r ôl troed carbon.  Mae'r rhain yn cynnwys inswleiddio'r toeon a'r waliau, cyfnewid boeleri, gosod cyfarpar atal drafftiau a defnyddio bylbiau golau ac offer a chyfarpar arall sy'n fwy effeithlon. Wrth leihau'r allyriadau $CO_2$ o'ch eiddo, gallwch hefyd leihau'ch biliau ynni.

### Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn ardystio sefydliadau sydd wedi mesur, rheoli a mynd ati o ddifrif i leihau eu hôl troed carbon ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau mwy o ostyngiadau bob blwyddyn.
www.carbontruststandard.com

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon hefyd yn cynnig gwahanol fathau o gyngor am Gynllun Adeiladau i'ch cefnogi i ddatblygu ateb carbon isel.
www.carbontrust.co.uk/wales
Ffôn 0800 085 2005

# Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun

## Beth yw ynni adnewyddadwy?

Ynni adnewyddadwy yw ynni o ffynhonnell sydd naill ai'n ddiderfyn (o leiaf o'n persbectif ni) neu y mae modd ei adnewyddu heb niweidio'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys ynni carbon isel sy'n ynni o ffynhonnell nad yw'n adnewyddadwy ond lle mae cynllun y system yn golygu bod llawer llai o allyriadau carbon yn cael eu cynhyrchu nag mewn system ynni draddodiadol.

### Cartrefi

Gall systemau ynni adnewyddadwy gynnig ateb cynaliadwy i gartrefi er mwyn iddynt leihau eu dibyniaeth ar ynni a'u hôl troed carbon. Gall y rhain amrywio o baneli dŵr poeth solar bach ar y to sy'n ategu'r system wresogi, i dyrbin gwynt sy'n ategu'r system pan fydd mwy o alw am drydan.

### Cymunedau

Gall system ynni adnewyddadwy gynnig ateb carbon isel cynaliadwy i broblemau ynni mewn sawl math o sefyllfa gymunedol. Mae gosod paneli gwresogi dŵr solar ar do ysgol neu osod boeler pelenni pren yn lle hen foeler olew mewn neuadd bentref yn enghraifft o brosiect ynni adnewyddadwy yn y gymuned. Mewn prosiectau mwy, gallai'r gymuned fod yn berchen ar nifer fach o dyrbinau gwynt neu system wresogi ar y cyd sy'n gwresogi sawl tŷ.

### Busnesau

Gall systemau ynni adnewyddadwy gynnig ateb cynaliadwy i fusnesau er mwyn iddynt leihau eu dibyniaeth ar ynni a'u hôl troed carbon. Gall y rhain amrywio o baneli dŵr poeth solar bach ar y to sy'n ategu system wresogi eiddo, tyrbin gwynt sy'n ategu'r system pan fydd mwy o alw am drydan neu gynllun gwresogi ar y cyd rhwng gwahanol adeiladau busnes.

### Mathau o dechnoleg - trydan / gwres

Mae angen ynni yn ein cartrefi a'n hadeiladau i **wresogi** ac i ddarparu **trydan**. Gellir rhannu technolegau ynni adnewyddadwy yn rheini sy'n darparu gwres a'r rheini sy'n darparu trydan. Mewn rhai achosion, megis unedau gwres a phŵer cyfunedig maent yn gallu darparu gwres a thrydan.

## Technolegau ynni adnewyddadwy

Isod ceir crynodeb byr o'r technolegau y mae cartrefi, cymunedau a busnesau yn fwyaf tebygol o'u hystyried. Mae taflen ar wahân ar gael ar gyfer pob un o'r technolegau hyn a cheir mwy o wybodaeth am y dechnoleg a'r materion cynllunio y dylech chi fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried gosod technolegau o'r fath.

Mae'n bwysig cofio y bydd angen llai o ynni o ddeunyddiau ynni adnewyddadwy mewn adeilad sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, felly bydd costau technoleg a chostau cynnal a chadw parhaus yn llai.



### Ynni Gwynt

Mae tyrbinau gwynt yn trosi'r pŵer o fewn màs aer symudol (gwynt) yn drydan drwy gylchdroi siafft. Gellir defnyddio tyrbinau gwynt bach i ddarparu ynni i un cartref, ysgol, adeilad cymunedol neu ddatblygiad swyddfeydd.



### System solar ffotofoltäig

Mae ynni solar yn golygu defnyddio ynni rhydd yr haul i ddarparu trydan gan ddefnyddio paneli solar ffotofoltäig. Golau dydd yn hytrach na goleuni uniongyrchol o'r haul y bydd ei angen ar system solar ffotofoltäig i gynhyrchu trydan. O'r herwydd, gellir cynhyrchu ynni ar ddiwrnod cymylog hyd yn oed.

## Gwresogi dŵr drwy wres yr haul



Mae'r systemau hyn yn casglu ynni rhydd yr haul ac yn ei drosi'n ddŵr poeth ochr yn ochr â gwresogydd dŵr confensiynol. Gallant ddarparu'r holl ddŵr poeth bron ar gyfer adeilad yn ystod misoedd yr haf a chryn dipyn drwy'r flwyddyn gyfan. Mae modd eu defnyddio ar gyfer gwresogi dŵr mewn cartrefi ac ar gyfer systemau mwy megis pyllau nofio ac eiddo masnachol.

## Ynni dŵr



Mae'r systemau hyn yn defnyddio ynni dŵr sy'n disgyn i droi tyrbin sy'n cynhyrchu trydan. Er ei fod, fwy na thebyg, yn un o'r dulliau hynaf o harneisio ynni adnewyddadwy, mae systemau cyfoes yn defnyddio tyrbinau i drosi'r ynni posibl mewn dŵr, sydd wedi'i ddal mewn man uchel i droi'r tyrbin, yn drydan.

## Biomas




Mae ynni o fiomas yn cael ei gynhyrchu o fater organig. Nid yw'n cynnwys tanwyddau ffosil, sydd wedi cael eu ffurfio dros filiynau o flynyddoedd. Dylai'r $CO_2$ sy'n cael ei ryddhau pan fydd ynni'n cael ei gynhyrchu o fiomas gael ei gydbwyso gan y $CO_2$ sy'n cael ei amsugno wrth i'r tanwydd gael ei greu, gan wneud hyn yn broses carbon niwtral. Ond mae'n bosib y bydd rhywfaint o allyriadau $CO_2$ yn gysylltiedig â thwf, prosesu a chludo biodanwyddau. Gall systemau biomas bach ddefnyddio naill ai belenni pren, sglodion pren neu logiau pren.



## Biomas (anaerobig)

Treuliad anaerobig yw'r broses o ddadelfennu mater planhigion neu anifeiliaid megis slyri fferm drwy weithgarwch microbau heb fod aer ar gael. Mae hyn yn cynhyrchu nwy sy'n cynnwys llawer iawn o fethan. Caiff y methan ei losgi wedyn i gynhyrchu gwres, trydan neu gyfuniad o'r ddau.



## Gwres a Phŵer Cyfunedig

Mae'r systemau hyn yn cyfeirio at y broses o adennill gwres a gynhyrchir yn ystod y broses o gynhyrchu trydan. Wrth gynhyrchu ynni mewn ffordd draddodiadol, mae'r gwres yn cael ei wastraffu am ei fod yn cael ei ryddhau i'r atmosffer drwy systemau oeri.

Mewn system gwres a phŵer cyfunedig, ar ôl cynhyrchu pŵer, caiff yr ynni gwastraff ei ddefnyddio i wresogi dŵr, a defnyddir hwnnw wedyn i roi dŵr poeth i adeiladau a'u gwresogi drwy reiddiaduron neu wres dan y llawr.



## Pympiau gwres

Mae'r systemau hyn yn cymryd gwres lefel isel o naill ai'r aer, dŵr (megis pyllau/llynnoedd) neu o dan y ddaear i wresogi'r gofod mewn adeilad, ac mewn rhai achosion, cynhesu dŵr ymlaen llaw. Mae pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear a dŵr yn cylchredeg hylif ar hyd peipiau er mwyn trosglwyddo'r gwres.

### Maint technolegau

Bydd pob un o'r technolegau hyn yn amrywio o ran maint yn dibynnu ar sut cânt eu gwneud. Mae'n bosib cynhyrchu cyfran sylweddol o wres neu drydan adeiladau drwy dechnolegau ynni adnewyddadwy.

Cyn i chi ystyried gosod technoleg ynni adnewyddadwy, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod **faint o wres neu drydan rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd** cyn dewis pa dechnoleg ynni adnewyddadwy sy'n addas.

Dylid gwneud hyn ar ôl i chi wella effeithlonrwydd ynni eich eiddo er mwyn i chi gael darlun cywir o faint o ynni y mae ei angen arnoch chi. Po leiaf yr ynni y bydd ei angen arnoch chi, po hawsaf fydd cael cyfran sylweddol drwy dechnoleg ynni adnewyddadwy.

Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw edrych ar eich biliau cyfleustodau blynyddol a ddylai ddangos i chi faint o wres ac ynni sydd wedi'i ddefnyddio.

Fel arfer, byddai un uned yn unig yn addas, er enghraifft un tyrbin neu banel solar. Serch hynny, gellir cyfuno unedau, er enghraifft drwy orchuddio to neuadd bentref neu siop ag unedau solar.

## Gosodwyr a chynhyrchion

Argymhellir eich bod yn dewis gosodwr sydd wedi'i ardystio dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS). Bydd hyn yn un o'r gofynion os byddwch yn gwneud cais i'r Cynllun Arian yn Ôl am Ynni Glân a Thaliad y Premiwm Gwres Adnewyddadwy (gweler tudalen 16).

Ewch i wefan yr MCS (www.microgenerationcertificaion.org) i ddod o hyd i osodwr lleol neu i weld a yw'r gosodwr neu'r cynnyrch wedi'i ardystio gan yr MCS neu ffoniwch un o gynghorwyr yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

www.est.org.uk    Ffôn 0800 512 012



# Cynllunio

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai gosod, addasu neu amnewid technoleg ynni adnewyddadwy yn cael ei ystyried yn 'ddatblygu' at ddibenion cynllunio oni bai ei fod yn digwydd yn gyfangwbl y tu mewn i adeilad sydd eisoes yn bodoli. Byddai'n rhaid i chi wneud cais i'ch awdurdod cynllunio lleol (y cyngor) felly am ganiatâd.




Fodd bynnag, mewn rhai achosion ceir rhai mathau o ddatblygu nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer - gelwir hyn yn ddatblygu a ganiateir. Mae rhai technolegau ynni adnewyddadwy microgynhyrchu wedi cael y statws hwn. Darllenwch daflen **3 Cynhyrchu eich Ynni eich Hun - Y Rheoliadau Cynllunio Presennol** i gael rhagor o wybodaeth.

## Y Porth Cynllunio

Y Porth Cynllunio yw'r lle cyntaf i fynd iddo i ddysgu mwy am y system gynllunio yng Nghymru. Dyma'r siop-un-stop i gael atebion, gwasanaethau a gwybodaeth os ydych yn rhan o'r broses gynllunio. Cefnogir y Porth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Porth Cynllunio wedi datblygu "tŷ rhyngweithiol" sy'n rhoi cyngor gweledol i unrhyw un sydd am gynnal prosiect ar ei dŷ, gan gynnwys prosiectau microgynhyrchu.
www.planningportal.gov.uk

## Mathau eraill o gymeradwyaeth

Mae'n bwysig sylweddoli hefyd y gall fod angen caniatâd a chydsyniad o fath arall, yn dibynnu ar eich system ynni adnewyddadwy megis:

- Caniatâd Adeilad Rhestredig os yw adeilad wedi'i restru.
- Caniatâd ardal gadwraeth os yw'r datblygiad mewn ardal gadwraeth.
- Coed - Mae llawer o goed yn cael eu gwarchod gan orchmynion cadw coed sy'n golygu bod angen caniatâd y cyngor arnoch chi er mwyn eu tocio neu eu torri i lawr.
- Rheoliadau Adeiladu - Yn aml iawn bydd angen i waith adeiladu newydd gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu.
- Bywyd gwyllt - Mae'n bosib bod gan rai adeiladau ystlumod yn clwydo ynddynt neu eu bod yn darparu lloches ar gyfer rhywogaethau eraill a warchodir - rhoddir gwarchodaeth arbennig i'r rhain (Cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, www.ccw.gov.uk).
- Trwyddedau Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i weld a yw unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i'ch safle chi neu i'ch cynlluniau chi.

# Cyllid

Mae amrywiol ffynonellau cyllid ar gael ledled Cymru, yn cynnwys y canlynol:-

**Cynllun Arian yn Ôl am Ynni Glan** (Tariffiau Cyflenwi Trydan)

Ers 1af Ebrill 2010 gall cartrefi, cymunedau a busnesau sy'n cynhyrchu eu trydan eu hunain o ffynonellau adnewyddadwy neu ffynonellau carbon isel gael taliadau rheolaidd gan eu cyflenwyr ynni. Cyflwynwyd y cynllun er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r technolegau hyn i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r cynllun yn gwarantu y telir isafswm am yr holl drydan a gynhyrchir gan y system, yn ogystal â thaliad ar wahân ar gyfer y trydan a allforir i'r grid. Gall y rheini sy'n ymuno â'r cynllun ddisgwyl gweld gostyngiad misol yn eu bil trydan ac incwm gan eu darparwr arian yn ôl am ynni glân.

Y technolegau trydan carbon isel bach sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer Tariffiau Cyflenwi Trydan ydy:

- Ynni Gwynt
- Systemau solar ffotofoltäig
- Ynni Dŵr
- Treuliad Anaerobig; a
- System ficro Gwres a Phŵer Cyfunedig ar gyfer cartrefi.

Er mwyn elwa o'r cynllun rhaid i'r technolegau fod wedi'u hardystio gyda'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu a rhaid i osodwr achrededig gyda'r cynllun hwn osod y cyfarpar.

Dim ond ar gyfer rhai technolegau hyd at faint penodol (5MW) y telir y Tariff Cyflenwi Trydan.

## Taliad y Premiwm Gwres Adnewyddadwy

Cynllun yw Taliad y Premiwm Gwres Adnewyddadwy i bobl sydd am osod offer cynhyrchu gwres adnewyddadwy. Mae'r grant yn talu am dechnolegau cymwys. Bydd y cynllun yn para o 1 Awst 2011 tan 31 Mawrth 2012.

Mae'n agored i bobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain ac yn byw yng Nghymru ac sydd am osod offer yn eu prif gartref. Os ydych yn rhentu'ch cartref yn breifat, holwch eich landlord - efallai y bydd yn rhaid ichi gael ei help i wneud cais i'r cynllun.

Gallwch wneud cais ar-lein trwy wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni www.est.org.uk

Bydd disgwyl ichi hefyd osod mesurau arbed ynni perthnasol i gael taleb. Cysylltwch â chynghorydd yn yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar 0800 512 012 i gael rhagor o wybodaeth.

## Y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Bydd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn cynnig taliadau dros gyfnod penodol o amser i gynhyrchwyr gwres adnewyddadwy. Bydd yn cychwyn yn y sectorau diwydiannol, masnachol a chyhoeddus ym mis Tachwedd 2011. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno i gartrefi yn 2012.

Darllenwch y daflen 3 **"Cynhyrchu eich Ynni eich Hun - Y Rheoliadau Cynllunio Presennol"** i gael gwybod a oes angen caniatâd cynllunio arnoch i osod y technolegau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn, defnyddiwch y manylion cyswllt perthnasol isod:

Dylai deiliaid tai a chymunedau gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni drwy www.energysavingtrust.org.uk/Generate-your-own-energy
Ffôn 0800 512 012

Dylai busnesau gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Garbon drwy
www.carbontrust.co.uk/wales
Ffôn 0800 085 2005

## Nyth

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun hwn sy'n cynnig help a chyngor i bobl arbed ynni yn eu cartrefi. Mae Nyth yn targedu teuluoedd sydd ar incwm isel ac sy'n byw mewn cartrefi gwastraffus o ran ynni. I gael help mesurau Llywodraeth Cymru, mae'n amod bod y teulu'n derbyn budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd a bod yr eiddo ym mand F neu G (SAP 39 neu lai). Os ydy'r teulu'n gymwys, bydd y tŷ cyfan yn cael ei asesu er mwyn gallu dewis yr opsiynau gorau ar ei gyfer.

Gall y cynllun roi cyngor ichi ar:

- ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol;
- tariffau ynni;
- gwneud y gorau o'ch incwm.

Cysylltwch â Nyth i weld pa help sydd ar gael i chi.
www.nythcymru.org.uk
Ffoniwch 0800 512 012

## Ynni'r Fro

(Cynllun Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar raddfa Gymunedol)
Mae Ynni'r Fro yn brosiect gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu 22 prosiect ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol ledled Cymru. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig gwasanaeth swyddog datblygu i helpu i feithrin gallu cymunedau, darparu cyngor technegol, helpu cymunedau i sicrhau cyllid, nodi anghenion hyfforddiant, ac arwain cymunedau drwy'r drefn cynllunio a thrwyddedu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

## Benthyciad Busnes yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn darparu benthyciadau di-log i gwmnïau er mwyn iddynt fuddsoddi mewn offer sy'n arbed ynni. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.carbontrust.co.uk/wales

## Arolygon yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae arolwg yr Ymddiriedolaeth Garbon o'ch safle, sydd am ddim*, yn gwarantu y bydd yn dod o hyd i ffyrdd cyflym ac effeithiol o leihau ynni. Yn gyffredinol mae costau ynni busnes yn lleihau 20% yn sgil yr arolwg. Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn arolygu'ch safle i asesu'r arbedion ynni posibl.

* Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnig arolygon am ddim o safleoedd am wariant ynni grŵp, sy'n werth hyd at £3,000,000 y flwyddyn i ymgeiswyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiredolaeth Garbon yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau diddorol am ddim i fusnesau lleol er mwyn addysgu'r byd busnes mewn materion sy'n ymwneud ag economi rhad-ar-garbon. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.carbontrust.co.uk/wales

## Awdurdodau Lleol

Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau raglenni sy'n cefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn tai lleol. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael manylion.

## Cwmnïau Cyflenwi Trydan a Nwy

Mae dyletswydd statudol ar bob cyflenwr ynni i leihau allyriadau carbon drwy fuddsoddi mewn mesurau ar gyfer cartrefi cwsmeriaid. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni'n cynnig cyngor di-dâl a diduedd am y cynigion sydd ar gael gan gyflenwyr ynni.



Ysgol y Graig
(Cydnabyddiaeth: Dulas Cyf)

# Rhagor o Wybodaeth

## Ôl Troed Carbon Cymru

Mae'r safle hwn yn rhoi cyfle i chi gyfrifo'ch ôl troed carbon a chael cyngor am sut gallwch chi helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar gyfer grwpiau cymunedol.

www.cymruoltroedcarbon.gov.uk

## Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'n darparu cyngor diduedd i fusnesau am arbed ynni a lleihau eu hallyriadau carbon.

www.carbontrust.co.uk

Ffôn 0800 085 2005

## Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Ar ei gwefan, mae'n darparu cyngor diduedd am arbed ynni a lleihau eich allyriadau carbon, a gallwch lwytho taflenni a gwybodaeth i lawr am lawer o'r technolegau a'r cyllid sydd ar gael.

www.est.org.uk

Ffôn 0800 512 012



Canolfan Addysg Oedolion, Machynlleth
(Cydnabyddiaeth: Dulas Cyf)

## Clybiau Solar

Mae pum Clwb Solar yn gwasanaethu Cymru gyfan ac maent yn rhoi cymorth i bobl sydd am osod systemau dŵr poeth solar eu hunain.

www.ecodyfi.org.uk/energy/dyfisolarclwb.htm

## Canolfan y Dechnoleg Amgen

Mae'r ganolfan wedi'i lleoli ym Machynlleth, Powys ac mae'n dangos pob un o'r technolegau hyn ar raddfa lawn ac yn darparu amrywiaeth helaeth o daflenni gwybodaeth a chyhoeddiadau.

www.cat.org.uk



(Cydnabyddiaeth: Amgen)



(Cydnabyddiaeth: Amgen)

### Gwefan Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth polisi am beth mae'r llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.

www.cymru.gov.uk/newidynyrhinsawdd

### Cynnal Cymru

Ar eu gwefan ceir cyfoeth o wybodaeth am fyw'n gynaliadwy, yn ogystal â chyfeiriadur o fudiadau, prosiectau, cymorth a chefnogaeth sydd ar gael lle rydych chi'n byw.

www.cynnalcymru.com

### Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Lloegr yn cynnwys llawer o wybodaeth am sut bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru a rhai o'r ffyrdd y gallwch chi a'ch cymuned ymateb.

www.environment-agency.gov.uk/



Cynllun Dŵr Padarn, Llanberis, Eryri (Cydnabyddiaeth: Dulas Cyf)

| Cyhoeddiadau sydd ar gael yn y gyfres hon | |
|---|---|
| 1 | Cynhyrchu eich Ynni eich Hun - Arweiniad Cynllunio ar gyfer Cartrefi, Cymunedau a Busnesau |
| 2A | Ynni Gwynt |
| 2B | Trydan Solar |
| 2C | Gwresogi dŵr drwy wres yr haul |
| 2D | Ynni dŵr |
| 2E | Biomas |
| 2F | Biomas (Treuliad Anaerobig) |
| 2G | System Ficro Gwres a Phŵer Cyfunedig |
| 2H | Pympiau Gwres |
| 3 | Cynhyrchu eich Ynni eich Hun - Y Rheoliadau Cynllunio Presennol |

Mae'r dogfennau hyn ar ein gwefan yn:
**www.cymru.gov.uk/cynllunio**

Llywodraeth Cymru sydd wedi paratoi'r ddogfen hon.
Diweddarwyd Tachwedd 2011

75% wedi'i ailgylchu recycled

WG 13009
ISBN 978 0 7504 6556 4
© Hawlfraint y Goron 2011